# Cenhadwr ein Caniadaeth

*(O'r dudalen flaen)*

newyddiadura a llenydda. Yn y man, daeth ei wyneb yn gyfarwydd ar y teledu trwy gyfrwng cyfresi poblogaidd megis 'Canu'r Bobol' (1971-2), a'i lais hefyd yn gyfarwydd iawn i wrandawyr radio ar amryw o raglenni.

Cyhoeddodd rai cannoedd o ysgrifau ar destunau hanesyddol a cherddorol mewn amryfal gylchgronau a phapurau newydd – Cymraeg a Saesneg — ar hyd y blynyddoedd, ac roedd yn awdur nifer o lyfrau ac o lyfrynnau, gan gynnwys *They Lived in Flintshire* (1960), *Enwogion Sir y Fflint* (1964), *Tonau a'u Hawduron* (1967), *Rhagor am Donau a'u Hawduron* (1969), *Canu'r Bobol* (1978), *David Lloyd (1912-1969): Llais a hudodd genedl* (1985), *Thomas Lloyd Jones* (Gwenffrwd) 1810-1834 (1989), *Owen Williams o Fôn (Owen Williams o'r Cwyrt) 1774-1839. Arloeswr canu cyulleidfaol* (1994) a *Taro Tant. Detholiad o ysgrifau ac erthyglau* (1994).

Cydnabyddwyd ei wasanaeth enfawr gan yr Urdd Er Hyrwyddo Cerddoriaeth Cymru (Gwobr Goffa John Edwards 1970; Is-lywydd 1979-), Gorsedd y Beirdd (Urdd Derwydd er Anrhydedd 1973), Prifysgol Cymru (M.A. er Anrhydedd 1983) a Chymdeithas Emynau Cymru (Cymrawd 1989-).

Priododd Olwen yn 1966, ac wedi cyfnod o fyw ym Mhrestatyn, symudodd y ddau i Lanfaelog, Môn yn 1971. Ganed Maredudd yn Awst 1972, a symudodd y teulu i Fangor yn Hydref 1973. Yno, ar ôl gwaeledd hir, y bu farw Huw ar yr wythfed ar hugain o Orffennaf, a'i gladdu ym Mynwent Capel Bryn-du ar y cyntaf o Awst. Gedy weddw, Olwen, mab, Maredudd a brawd, William.

Cyfrannodd Huw Williams dros ddeg ar hugain o ysgrifau i'r *Casglwr* ar hyd y blynyddoedd, ac fe'i rhestrir isod:

'Canmlwyddiant Ieuan Gwyllt', 1 (Mawrth 1977), t.2; 'Pe cawn i hwn', 2 (Awst 1977), t.6;
'Y cyhoeddwr a anghofiwyd', 6 (Nadolig 1978), t.7;
'Cerddorion 1877', 8 (Awst 1979), t.3;
'Yr anhygoel gasgliad', 10 (Mawrth 1980), t.16;
'Cerrig milltir rhyfedd yr Ŵyl', 11 (Awst 1980), t.6;
'Swyngyfaredd yr hen recordiau', 12 (Nadolig 1980), t.4;
'Miwsig Llanidloes', 14 (Awst 1981), t.8;
'Dau o weithiau prin Siôn Singer', 18 (Nadolig 1982), t.14;
'Prisiau, prinder cyfrolau cerdd', 20 (Awst 1983), t.14;
'Bargen yn y Brifwyl', 21 (Nadolig 1983), t.20;
'Nodau'r anhygoel blantos', 23 (Awst 1984), t.20;
'Hen gyfrolau a'u cysylltiadau', 25 (Pasg 1985), t.9;
'Dau hen eirlyfr cerddorol cynnar', 27 (Nadolig 1985), t.15;
'Rhufoniawc – a diflaniad Oriel y Beirdd', 29 (Awst 1986), t.11;
'Ceiriog – y caniadwr mawr', 33 (Nadolig 1987), t.5;
'Y fenter goll', *op. cit.*, t.15;
'Preisiaid cerddorol Gwent', 35 (Awst 1988), t.7;
'Pam mae ambell i gyfrol mor brin', 36 (Nadolig 1988), t.14.
'Yn yr ysgol gyda'r Hen Nic', 37 (Mawrth 1989), t.9.
'Yr hen gyfrwywr o Lanrwst a'i rodd o'r dôn ar ddu a gwyn', 38 (Awst 1989), t.7;
'Apêl gyfrin y llyfrnodau', 43 (Mawrth 1991), t.13;
'Y dyrys hawlfraint ar y Nefoedd!', 45 (Nadolig 1991), t.1;
'Camp a rhemp Ieuan Gwyllt', 47 (Awst 1992), t.5;
'Hen helbul y ddau gofiant', 48 (Nadolig 1992), t.11;
'D. R. Hughes a'r Cofion', 49 (Gwanwyn 1993), t.15;
'Huw Williams yn cymryd cipdrem ar weithgarwch James Ifano Jones (1867-1955)', 51 (Gaeaf 1993), tt.7-8;
'Calon Lân yn yr Alban?', 56/57 (Haf 1996), t.29;
'Huw Williams yn sôn am y cerddor mawr o'r Bala', 60 (Haf 1997), t.11;
Rhagor am R. S. Hughes (1855-93) a'i *Elen Fwyn*', 63 (Haf 1998), tt.14-15;
'Alawon Cymreig, Almaenig eu harddull o law Sgotyn', 69 (Haf 2000), tt.15 & 17;
'Alawon Cymreig, Almaenig eu harddull o law Sgotyn – II', 70 (Gaeaf 2000), t.15;
'Y Drych yn dathlu', 73 (Gaeaf 2001), tt.7 & 18.
'Robert David Griffith (1877–1958): Cerddor y Cysegr, *Y Traethodydd*, Hydref 2002.

JOHN ROBERTS WILLIAMS

### W. Alun Mathias

Yn dawel yn ei gartref yng Nghaerdydd ar 31 Hydref bu farw W. A. Mathias.
Bu'n gyfrannwr cyson i'r Casglwr dros y blynyddoedd.
Estynnir cydymdeimlad â'r teulu yn eu galar.
(Ceir teyrnged iddo yn y rhifyn nesaf)

### Ymholiadau

Llyfrau yn eisiau:
Cloi'r Clwydi, Robert Rees
Hanes y Frwydr
The Parish Register of Llansannan, gol. W. Lowe
Cysyllter ar (01745) 813173

## FFAIR LYFRAU'R CASGLWR

### Cynhelir Ffair Lyfrau – Printiadau a Hen Fapiau

**Yn Ysgol Penweddig, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth fore Sadwrn, 26 Ebrill 2003 o 10 o'r gloch tan 4.**

Bydd llyfrwerthwyr o bob rhan o Gymru yno, ac os bydd gennych ddiddordeb i werthu eich llyfrau, bydd pob croeso i chi osod stondin yno.
Codir £15 am bob stondin.
Gadewch i'r Ysgrifennydd wybod os oes diddordeb gennych, neu cysylltwch ar (01970) 623 174